WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o Gyflawni'r Rhaglen Dechrau'n Deg – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1489A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Katherine Simmons, Ian Phillips a Sara-Jane Byrne dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor nifer o enghreifftiau cadarnhaol sy'n dangos sut y mae wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gyflawni'r Rhaglen Dechrau'n Deg, ond mae'r Cyngor yn cydnabod y gall y modd y mae'n cymhwyso'r pum ffordd o weithio gael ei gryfhau ymhellach


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad 6

Mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar wella deilliannau trwy'r Rhaglen Dechrau'n Deg, ond mae cyfle i ystyried sut y mae'n mesur yr effaith dros y tymor hwy 6

Mae atal yn rhan annatod o'r Rhaglen Dechrau'n Deg ac mae'n helpu i gyflawni'r agenda trechu tlodi, ond ceir rhai cyfyngiadau o ran capasiti sy'n cyfyngu ar ei heffaith bosibl 7

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gwreiddio integreiddio'n mynd i olygu rhagor o waith ac amser, ond mae wedi dechrau cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â'r her hon ar draws y sefydliad 8

Ceir rhai enghreifftiau o gydweithio effeithiol gyda phartneriaid a rhannau o'r Cyngor, er y gallai agweddau ar gydweithio gael eu cryfhau 9

Ceir enghreifftiau o'r Cyngor yn mynd ati'n effeithiol i geisio barn rhieni a rhanddeiliaid eraill mewn agweddau ar y Rhaglen Dechrau'n Deg, ond mae cyfleoedd pellach i sicrhau bod y bobl gywir yn chwarae rhan ystyrlon a bod eu barn yn cael ei chymryd i ystyriaeth 10

Rhan Dau: Ymateb y Cyngor 12

Atodiadau

Atodiad 1 – Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio 15

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y cynhalion ni'r Archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) mae'n ofynnol yn statudol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a. pennu eu hamcanion llesiant; a

b. cymryd camau i'w cyflawni.

2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

3 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn pob un o etholiadau'r Cynulliad. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o'i fath erbyn 2020, cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2021.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf i oleuo'i adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystod 2018-19 a 2019-20.

5 Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a wnaethom yn ystod y cyfnod rhwng mis Mehefin 2019 a mis Awst 2019.

6 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau o'n harchwiliad o Gyflawni'r Rhaglen Dechrau'n Deg, cam y mae'r Cyngor yn ei gymryd i gyflawni ei Amcanion Llesiant. Mae hefyd yn nodi ymateb cychwynnol y Cyngor i'n canfyddiadau.

## Yr hyn y gwnaethom ei archwilio

7 Fe archwilion ni i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gyflawni'r rhaglen Dechrau'n Deg.

8 Er mwyn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'ffyrdd o weithio' canlynol:

### Arddangosyn 1: y 'pum ffordd o weithio'

Mae'r tabl isod yn nodi'r 'pum ffordd o weithio' a ddiffinnir yn nogfen 'Hanfodion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol'[1] Llywodraeth Cymru.

| Y Pum Ffordd o Weithio |
|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |
| **Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu. |

9 Canfu ein harchwiliad fel a ganlyn: Mae gan y Cyngor nifer o enghreifftiau cadarnhaol sy'n dangos sut y mae wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gyflawni'r Rhaglen Dechrau'n Deg, ond mae'r Cyngor yn cydnabod y gall y modd y mae'n cymhwyso'r pum ffordd o weithio gael ei gryfhau ymhellach.

[1] **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion**, Llywodraeth Cymru (2015)

# Adroddiad manwl

## Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad

### Mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar wella deilliannau trwy'r Rhaglen Dechrau'n Deg, ond mae cyfle i ystyried sut y mae'n mesur yr effaith dros y tymor hwy

#### Yr hyn y chwilion ni amdano

10 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am anghenion cyfredol a hirdymor a'r heriau a chyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio dros raddfa amser briodol;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau manteision hirdymor; a
- monitro ac adolygu priodol.

11 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr 'hirdymor' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[2]

#### Yr hyn a ganfuom

12 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Rhaglen seiliedig ar dystiolaeth yw rhaglen Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru. Mae wedi'i bwriadu i gyflawni ystod o effeithiau hirdymor trwy ymgysylltu cadarnhaol gan rieni ynghylch deilliannau plant a rhianta. Mae hyn yn llywio ffocws ar effaith hirdymor yn lleol.
- Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg wedi'i bwriadu i arwain at adnabod anghenion o ran cymorth yn gynnar ar gyfer plant a theuluoedd. O ganlyniad, mae'n cynnig y potensial i gefnogi gwaith cynllunio ac ataliol hirdymor ym Merthyr Tudful.
- Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i goladu a chymedroli'r data y mae'n ei ddal. Gall hyn ei gwneud yn bosibl tracio plentyn dros y tymor hwy trwy gydol ei addysg i alluogi'r Cyngor i fesur effaith y rhaglen a goleuo'r broses o gynllunio gwasanaethau a dyrannu adnoddau.

13 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- Gallai'r Cyngor ystyried cyfleoedd i dracio'r Rhaglen Dechrau'n Deg dros ffrâm amser hwy.

[2] Gweler Atodiad 1

- Mae'r Cyngor yn defnyddio offeryn gwerthuso i fesur effaith uniongyrchol rhaglenni rhianta ar rieni, ond gallai geisio archwilio'r effaith mwy hirdymor ar y rhieni hynny.
- Mae'r Cyngor a phartneriaid yn ymwybodol eu bod yn brwydro i leihau gordewdra ymhlith plant pum mlwydd oed a lleihau nifer y babanod â phwysau geni isel ac maent yn cydnabod bod angen gwaith pellach i fynd i'r afael â'r rhain.

## Mae atal yn rhan annatod o'r Rhaglen Dechrau'n Deg ac mae'n helpu i gyflawni'r agenda trechu tlodi, ond ceir rhai cyfyngiadau o ran capasiti sy'n cyfyngu ar ei heffaith bosibl

### Yr hyn y chwilion ni amdano

14 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am natur y broblem a'r math o broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu fynd yn waeth;
- adnoddau wedi'u dyrannu i sicrhau y bydd manteision ataliol yn cael eu cyflawni; a
- monitro ac adolygu pa mor effeithiol yw'r cam o ran atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.

15 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'atal' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[3]

### Yr hyn a ganfuom

16 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Rhaglen ataliol yw'r Rhaglen Dechrau'n Deg, sydd â rôl allweddol yn agenda trechu tlodi'r Cyngor.
- Mae'r Rhaglen Dechrau'n Deg yn cynnwys ymyriadau ataliol megis therapi iaith a lleferydd, dosbarthiadau cymorth rhianta a chymorth gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).
- Mae'r Cyngor wedi defnyddio data'n effeithiol i adnabod yr angen am hyfforddiant ychwanegol ar gyfer darparwyr i gefnogi datblygiad mathemategol plant.
- Mae'r Cyngor yn ceisio estyn effaith y Rhaglen Dechrau'n Deg trwy:
  – ddwyn ffrydiau cyllid ynghyd gyda Dechrau'n Deg i wneud y defnydd gorau o adnoddau; a

[3] Gweler Atodiad 1

– hyfforddi staff mewn lleoliadau gofal plant i ddwyn budd i blant Dechrau'n Deg a phlant eraill sy'n mynychu.

17 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- Er bod rhaid cydnabod bod y Cyngor yn profi heriau ariannol tyngedfennol, mae ei allu i gynyddu manteision atalion y rhaglen Dechrau'n Deg yn cael ei rwystro gan gyfyngiadau ar gapasiti;
  – gallai pwyntiau gwybodaeth unigol o fewn y tîm Capita One danseilio gallu'r Cyngor i ddatblygu ei ddefnydd o ddata; ac
  – mae'r Cyngor wedi bwriadu targedu ymyriadau ar adeg gyn-enedigol; fodd bynnag ar hyn o bryd nid yw'n gallu cyflawni hyn oherwydd materion capasiti sefydliadau partner.

## Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gwreiddio integreiddio'n mynd i olygu rhagor o waith ac amser, ond mae wedi dechrau cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â'r her hon ar draws y sefydliad

### Yr hyn y chwilion ni amdano

18 Fe chwilion ni am dystiolaeth o ystyried:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

19 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'integreiddio' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[4]

### Yr hyn a ganfuom

20 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg wedi'i bwriadu i gyflawni deilliannau iechyd ac addysgol.
- Ac yntau'n ymwybodol o'r angen i gynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth am integreiddio, mae'r Cyngor wedi cynnal ymarfer ar draws y Cyngor yn ddiweddar i alluogi gwasanaethau i weld eu perthynas â'i gilydd a pha mor ddibynnol yw pob gwasanaeth ar eraill i gyflawni eu priod amcanion llesiant.

[4] Gweler Atodiad 1

21 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- Gallai'r Cyngor ystyried sut y mae'n cysylltu'r rhaglen Dechrau'n Deg â meysydd gwaith eraill i gael effaith gadarnhaol ar draws yr amcanion llesiant.
- Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ganddo ormod o strategaethau ac mae'n amcanu at eu symleiddio, er ei fod yn drafftio un arall, y Strategaeth Rianta, ar hyn o bryd. Bydd yn bwysig sicrhau bod y Strategaeth Rianta yn gyson iawn â strategaethau perthnasol eraill.

## Ceir rhai enghreifftiau o gydweithio effeithiol gyda phartneriaid a rhannau o'r Cyngor, er y gallai agweddau ar gydweithio gael eu cryfhau

### Yr hyn y chwilion ni amdano

22 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw cydweithio'n ei helpu ef neu'n helpu ei randdeiliaid i gyflawni amcanion llesiant.

23 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cydweithio' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[5]

### Yr hyn a ganfuom

24 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Mae amryw fecanweithiau cydweithredol ar waith megis y panel amlasiantaeth ADY a Grŵp Strategaeth y Blynyddoedd Cynnar sy'n dwyn swyddogion y Cyngor a phartneriaid ynghyd.
- Mae perthnasoedd rhwng y darparwyr gofal plant y siaradon ni gyda hwy a'r Cyngor yn gadarnhaol.
- Mae timau'r rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg yn cydweithio mewn modd adeiladol.

[5] Gweler Atodiad 1

25 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- Cryfhau cysylltiadau rhwng gweithwyr cymdeithasol a'r Rhaglen Dechrau'n Deg, i wella gallu gweithwyr cymdeithasol i gyfeirio teuluoedd at yr amryw agweddau ar yr hawl i'r Rhaglen Dechrau'n Deg.
- Gwneud gwaith pellach i archwilio rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig â chydweithio rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys rhannu data a darparu adnoddau.

## Ceir enghreifftiau o'r Cyngor yn mynd ati'n effeithiol i geisio barn rhieni a rhanddeiliaid eraill mewn agweddau ar y Rhaglen Dechrau'n Deg, ond mae cyfleoedd pellach i sicrhau bod y bobl gywir yn chwarae rhan ystyrlon a bod eu barn yn cael ei chymryd i ystyriaeth

### Yr hyn y chwilion ni amdano

26 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi adnabod pwy y mae angen iddo'u cynnwys wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi mynd ati mewn ffordd effeithiol i gynnwys rhanddeiliaid wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi defnyddio canlyniadau cynnwys pobl i ddylanwadu ar ddatblygu a chyflawni'r cam; ac
- wedi ceisio dysgu gwersi a gwella'i ddull o gynnwys.

27 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cynnwys' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[6]

### Yr hyn a ganfuom

28 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Mae'r Cyngor yn ymateb i adborth gan rieni, megis teilwra'r rhaglen yn uniongyrchol mewn ymateb i farn rhieni.
- Bu mentrau diweddar i gryfhau'r broses bontio rhwng lleoliadau gofal plant ac ysgolion, gan gynnwys digwyddiad gyda rhanddeiliaid allweddol a oedd yn ystyried pontio a chymedroli deilliannau'r Cyfnod Sylfaen.
- Mae'r Cyngor yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio adborth gan rieni ar ansawdd dosbarthiadau rhianta.

[6] Gweler Atodiad 1

29 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- Ystyried ymhellach sut i optimeiddio'r Rhwydwaith Rhieni i'w gwneud yn bosibl cynnwys mwy o rieni sy'n rhan o'r Rhaglen Dechrau'n Deg.
- Mae'r Cyngor yn cydnabod yr her a achosir gan y Ddeddf i gynnwys amrywiaeth y boblogaeth. Gall ddarparu gwasanaethau cyfieithu ar gyfer teuluoedd y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol iddynt; fodd bynnag, dylai'r Cyngor ystyried ffyrdd pellach y gall barn amrywiaeth y boblogaeth ddylanwadu ar y Rhaglen Dechrau'n Deg.
- Er bod rhieni'n darparu adborth ar y gwasanaethau y maent yn eu cael, mae'r Cyngor yn cydnabod na chymerir pob cyfle i ddadansoddi'r adborth hwn/i ddysgu ohono.
- Gallai'r Cyngor ystyried a oes cyfleoedd i gynnwys rhieni yn y gwaith i gyflawni'r rhaglen, er enghraifft fel hyrwyddwyr neu i roi cymorth gan gymheiriaid.

# Rhan Dau: Ymateb y Cyngor

| Gweithgaredd | Dyddiad Cychwyn | Dyddiad Gorffen | Swyddog Cyfrifol | Statws GCAG | Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ystyried cyfleoedd i dracio'r Rhaglen Dechrau'n Deg dros ffrâm amser hwy** | | | | | |
| Cynhyrchu adroddiad dadansoddi ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn seiliedig ar blant Dechrau'n Deg a phlant eraill | Hydref 2020 | Tach 2020 | SO | Gwyrdd | 25% |
| Cynhyrchu adroddiad dadansoddi ar ddiwedd CA3 yn seiliedig ar blant Dechrau'n Deg a phlant eraill | Hydref 2025 | Tach 2025 | SO | gwyrdd | 0% |
| **Mae'r Cyngor yn defnyddio offeryn gwerthuso i fesur effaith uniongyrchol rhaglenni rhianta ar rieni, ond gallai geisio archwilio'r effaith mwy hirdymor ar y rhieni hynny** | | | | | |
| Adnabod dulliau mewn awdurdodau lleol eraill a chynhyrchu adroddiad gydag argymhellion clir ar ffyrdd ymlaen | Awst 2020 | Ion 2021 | DJ | Gwyrdd | 0% |
| **Mae'r Cyngor a phartneriaid yn ymwybodol eu bod yn brwydro i leihau gordewdra ymhlith plant pum mlwydd oed a lleihau nifer y babanod â phwysau geni isel ac maent yn cydnabod bod angen gwaith pellach i fynd i'r afael â'r rhain** | | | | | |
| Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith aelodaeth Etholedig o strategaethau a dulliau presennol ar gyfer ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd yn y Blynyddoedd Cynnar, heriau a rhwystrau | Tach 2019 | Ebrill 2020 | CH | Gwyrdd | 20% |
| Darpariaeth bresennol mewn gwasanaethau cyn-enedigol a blaenoriaethau datblygu'r gweithlu'n cael eu hadnabod mewn partneriaeth ledled y rhanbarth | Tach 2019 | Medi 2020 | CH | Gwyrdd | 20% |
| Cefnogi a dylanwadu ar gynlluniau buddsoddi rhanbarthol mewn gwasanaethau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd o ran gordewdra yn y blynyddoedd cynnar a phwysau geni isel | Tach 2019 | Medi 2020 | CH | Gwyrdd | 20% |
| **Gallai pwyntiau gwybodaeth unigol o fewn y tîm Capita One danseilio gallu'r Cyngor i ddatblygu ei ddefnydd o ddata** | | | | | |
| Cwblhau ymarfer capasiti ar gyfer y gwasanaeth | Ion 2020 | Ion 2020 | CH | Gwyrdd | 0% |

| Gweithgaredd | Dyddiad Cychwyn | Dyddiad Gorffen | Swyddog Cyfrifol | Statws GCAG | Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mae'r Cyngor wedi bwriadu targedu ymyriadau ar adeg gyn-enedigol; fodd bynnag ar hyn o bryd nid yw'n gallu cyflawni hyn oherwydd materion capasiti sefydliadau partner** | | | | | |
| Trwy waith rhanbarthol, sicrhau gweithlu sydd wedi cael hyfforddiant ehangach mewn perthynas ag ymlyniad | Tach 2019 | Rhag 2020 | SO | Gwyrdd | 20% |
| Treialu rhaglen gyn-enedigol croeso i'r byd gyda phartneriaid | Tach 2019 | Medi 2020 | DJ | Gwyrdd | 15% |
| **Gallai'r Cyngor ystyried sut y mae'n cysylltu'r rhaglen Dechrau'n Deg â meysydd gwaith eraill i gael effaith gadarnhaol ar draws yr amcanion llesiant** | | | | | |
| Cwblhau ymgynghoriad ynghylch cymorth cyflogaeth gyda rhieni Dechrau'n Deg a chynhyrchu adroddiad dadansoddi gydag argymhellion | Rhagfyr 2020 | Chwefror 2021 | SO | Gwyrdd | 0% |
| **Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ganddo ormod o strategaethau ac mae'n amcanu at eu symleiddio, er ei fod yn drafftio un arall, y Strategaeth Rianta, ar hyn o bryd. Bydd yn bwysig sicrhau bod y Strategaeth Rianta yn gyson iawn â strategaethau perthnasol eraill.** | | | | | |
| Yr holl strategaethau wedi'u hadolygu a'u cyfiawnhau neu eu hailddiffinio | Chwefror 2020 | Medi 2020 | AM | Gwyrdd | 0% |
| Ymgynghoriad ynghylch y cynllun rhianta wedi'i gwblhau a'r cynllun wedi'i ddiwygio yn unol â sylwadau cyn cael ei gymeradwyo | Ionawr 2020 | Ebrill 2020 | CH | Green | 10% |
| **Cryfhau cysylltiadau rhwng gweithwyr cymdeithasol a'r Rhaglen Dechrau'n Deg, i wella gallu gweithwyr cymdeithasol i gyfeirio teuluoedd at yr amryw agweddau ar yr hawl i'r Rhaglen Dechrau'n Deg** | | | | | |
| Sefydlu cyfarfodydd rheolaidd gyda'r gwasanaethau plant i rannu gwybodaeth am wasanaethau. | Tach 2019 | Ebrill 2020 | SO | Gwyrdd | 30% |
| Uwchsgilio gweithwyr cymdeithasol plant o ran eu gwybodaeth am y gwasanaethau ataliol sydd ar gael | Ebrill 2019 | Rhagfyr 2020 | SO | Gwyrdd | 20% |
| **Gwneud gwaith pellach i archwilio rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig â chydweithio rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys rhannu data a darparu adnoddau** | | | | | |
| Proffil Grwpiau Agored i Niwed wedi'i gynhyrchu ac yn addas i'w ddiben wedi'i gytuno ar draws y dull rhanbarthol | Hydref 2019 | Medi 2020 | CH | Gwyrdd | 15% |
| Adolygu gyda gwasanaethau iechyd sut y gallan ateb gofynion staffio'r gwasanaeth Dechrau'n Deg yn y dyfodol | Ebrill 2020 | Rhagfyr 2020 | CH | Gwyrdd | 0% |

| Gweithgaredd | Dyddiad Cychwyn | Dyddiad Gorffen | Swyddog Cyfrifol | Statws GCAG | Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ystyried ymhellach sut i optimeiddio'r Rhwydwaith Rhieni i'w gwneud yn bosibl cynnwys mwy o rieni sy'n rhan o'r Rhaglen Dechrau'n Deg** | | | | | |
| Cynnal adolygiad grwpiau cymorth gan gymheiriaid i rieni a darparu argymhellion ynghylch y ffordd ymlaen | Rhag 2019 | Meh 2020 | JW | Gwyrdd | 10% |
| **Ystyried sut y gall amrywiaeth y boblogaeth ddylanwadu ar gyflawni yn y dyfodol** | | | | | |
| Cynhyrchu adroddiad dadansoddi blynyddol ar gyfer darpariaeth gofal plant sy'n argymell sut y dylai gwasanaethau yn y dyfodol gael eu trefnu yn seiliedig ar farn defnyddwyr gwasanaethau | Ebrill 2020 | Awst 2020 | SP | Gwyrdd | 0% |
| Treialu'r broses o gynhyrchu dadansoddiad 6 mis o holiadur gwerthuso'r rhaglen i rieni a gwblhawyd gan rieni a rhannu negeseuon allweddol | Ionawr 2020 | Mai 2020 | AM | Gwyrdd | 0% |
| Treialu'r broses o gynhyrchu dadansoddiad 6 mis o holiaduron gwerthuso ELD a gwblhawyd gan rieni a rhannu negeseuon allweddol | Ionawr 2020 | Mai 2020 | KB | Gwyrdd | 0% |
| Adolygu pa arfer gorau sy'n bodoli ledled Cymru o ran gwerthusiadau ymadael o Dechrau'n Deg a gwneud argymhellion clir o ran y ffordd ymlaen | Ebr 2020 | Hyd 2020 | SO | Gwyrdd | 0% |
| **Sicrhau y gweithredir ar adborth gan rieni** | | | | | |
| Cynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n dadansoddi adborth gan rieni sy'n rhan o raglenni rhianta a rhaglenni ELD gan wneud argymhellion ar gyfer aildrefnu gwasanaethau yn y dyfodol | Tach 2020 | Ebrill 2021 | SO | Gwyrdd | 0% |
| Dechrau'n Deg i gynhyrchu llenyddiaeth ar gyfer rhieni ar negeseuon allweddol am ddysgu a sut y mae hyn wedi dylanwadu ar wasanaethau | Ebrill 2021 | Medi 2021 | SO | Gwyrdd | 0% |
| **Ystyried sut i gynnwys rhieni eu hunain yn fwy wrth ddarparu gwasanaethau** | | | | | |
| Gwasanaethau a adnabuwyd yn gweithio gyda rhieni i ganfod sut y gallai rhieni weithredu fel hyrwyddwyr ar draws y gymuned | Ebrill 2020 | Awst 2020 | SO | Gwyrdd | 0% |
| Hyrwyddwyr a adnabuwyd mewn gwasanaethau allweddol i gael eu cynorthwyo / hyfforddi i allu rhannu negeseuon allweddol ar draws cymunedau | Awst 2020 | Ebrill 2021 | SO | Gwyrdd | 0% |

# Atodiad 1

## Dangosyddion Cadarnhaol o’r Pum Ffordd o Weithio

Mae’r tabl yn nodi ‘dangosyddion cadarnhaol’ ar gyfer pob un o’r pum ffordd o weithio yr ydym wedi’u hadnabod a’u defnyddio i helpu i oleuo ein hasesiadau sy’n ystyried i ba raddau y gall cyrff fod yn cymhwyso’r Egwyddor DC. Nid ydym yn bwriadu i’r dangosyddion gael eu defnyddio fel ‘rhestr wirio’. Rydym wedi’u defnyddio fel ‘dangosyddion’ i’n helpu i ddod i gasgliadau, yn hytrach na ‘phenderfynyddion’ sy’n dynodi i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â’r Egwyddor DC wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

Arddangosyn 2: Dangosyddion Cadarnhaol o’r Pum Ffordd o Weithio

| Beth fyddai’n dangos bod corff yn cymhwyso’r ffordd o weithio hirdymor yn llawn? |
|---|
| • Ceir dealltwriaeth glir am yr hyn y mae ‘hirdymor’ yn ei olygu yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Maent wedi dylunio’r cam i gyflawni’r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.<br>• Maent wedi dylunio’r cam i gyflawni manteision yn y tymor byr neu ganolig, y ceir cydbwysedd rhyngddynt a’r effaith dros yr hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).<br>• Maent wedi dylunio’r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig am yr angen a phwysau yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau’r dyfodol.<br>• O ganlyniad, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr am risgiau a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision byrdymor yn cael eu cyflawni.<br>• Ceir ffocws ar gyflawni deilliannau, gyda cherrig milltir/camau cynnydd wedi’u nodi lle bydd deilliannau’n cael eu cyflawni dros yr hirdymor.<br>• Maent yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i ddwyn manteision dros yr hirdymor.<br>• Maent yn gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn mynd ar drywydd dulliau seiliedig ar dystiolaeth. |
| **Beth fyddai’n dangos bod corff yn cymhwyso’r ffordd o weithio ataliol yn llawn?** |
| • Mae’r corff yn ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel bod modd mynd i’r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy’n pontio’r cenedlaethau.<br>• Mae’r corff yn ystyried heriau o safbwynt systemau cyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi’r manteision hirdymor y gallant eu dwyn i bobl a lleoedd.<br>• Mae’r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy’n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a defnydd gwell o adnoddau dros y tymor hwy, hyd yn oed lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor.<br>• Ceir trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy’n cydnabod gwerth camau ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau wrth fynd ar drywydd gwelliannau a ragwelir mewn deilliannau ac yn y defnydd o adnoddau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'? |
| --- |
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at wireddu'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau traws-sefydliadol sy'n rhan o wireddu'r uchelgais a chyflawni'r amcanion.<br>• Ceir diwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.<br>• Ceir dealltwriaeth sydd wedi datblygu'n dda am y modd y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn gweithio mewn modd rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i wneud y cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant a lleihau effeithiau negyddol i'r eithaf.<br>• Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau'n cefnogi hyn, ac felly hefyd ymddygiadau. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a deilliannau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda am amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgarwch cydweithredol.<br>• Mae gan y corff berthnasoedd cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud.<br>• Mae'r corff yn ceisio canfod prosesau cyffredin a ffyrdd cyffredin o weithio, lle y bo'n briodol. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Deall pwy y mae angen eu cynnwys a pham.<br>• Myfyrio pa mor dda y mae'r anghenion a'r heriau a wynebir gan y bobl hynny'n cael eu deall ar hyn o bryd.<br>• Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gan weithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid fel ffynhonnell wybodaeth hanfodol a fydd yn helpu i gyflawni deilliannau gwell.<br>• Sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.<br>• Bod â pherthnasoedd aeddfed, seiliedig ar ymddiriedaeth â'i randdeiliaid lle ceir deialog barhaus a lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru